

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2021.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

22 Mehefin 2021

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ("*Rheoliadau 2015*") yn sgil Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("*Deddf 2018*") a oedd yn diwygio adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("*Deddf 2014*").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i Senedd Cymru

- 2.1 Ni nodwyd materion penodol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Rhan 2 o Ddeddf 2018 yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") plant a phobl ifanc. O dan y system ADY, mae gan awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gyfrifoldebau i wneud penderfyniadau ynghylch ADY a pharatoi a chynnal cynlluniau datblygu unigol ("CDUau") ar gyfer plant sydd wedi'u cofrestru fel disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Un eithriad i hyn yw plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, gan mai dim ond yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn sy'n gyfrifol am y dyletswyddau hynny fel arfer. Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, rhaid iddo gynnwys y CDU fel rhan o gynllun addysg personol y plentyn, os oes un gan y plentyn: mae adran 16 o Ddeddf 2018 yn mewnosod y gofyniad hwn yn adran 83(2C) o Ddeddf 2014.
- 3.2 Ar hyn o bryd, mae'r gofyniad i'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal gael cynllun addysg personol fel rhan o'u cynllun gofal a chymorth yn rheoliad 5 o Reoliadau 2015. Er mwyn i'r gofyniad i CDU gael ei gynnwys fel rhan o gynllun addysg personol gael ei fewnosod yn Neddf 2014, roedd Deddf 2018 yn diwygio Deddf 2014 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gofal a chymorth gynnwys cynllun addysg personol: mae adran 16 o Ddeddf 2018 yn mewnosod isadran (2A) yn adran 83 o Ddeddf 2014. Er mwyn caniatáu eithriadau i'r gofyniad i gael cynllun addysg personol, roedd Deddf 2018 hefyd yn mewnosod pŵer rheoliadol i ragnodi eithriadau: adran 83(2B) o Ddeddf 2014. Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y pŵer hwnnw, a hefyd o dan adrannau 83(5), 84(b) a 196(2). Maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (gweler paragraff 3.6 isod).
- 3.3 Mae adrannau 83(5) ac 84(b) yn rhoi pwerau i reoliadau mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth gynnwys darpariaeth ynghylch yr hyn y dylai cynlluniau addysg personol ei gynnwys.
- 3.4 Mae diffiniad Deddf 2018 o blentyn sy'n derbyn gofal yn fwy cyfyngedig na'r diffiniad yn Neddf 2014 (gweler y diffiniad yn adran 15) ac, yn benodol, nid yw'n cynnwys plentyn sy'n derbyn gofal o dan Ddeddf 2014 nad yw'n ofynnol

iddo gael cynllun addysg personol o dan y Ddeddf honno (gweler rheoliad 5 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Felly, ni chaiff y categorïau o blant sy'n derbyn gofal a ragnodir yn y Rheoliadau hyn eu trin fel plant sy'n derbyn gofal at ddibenion Deddf 2018 (bydd ganddynt hawliau o dan y Ddeddf honno o hyd, ond ni fydd y darpariaethau penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gymwys iddynt).

- 3.5 Gwnaeth Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2020 gychwyn, ymhlith pethau eraill, amrywiol ddarpariaethau Deddf 2018 at ddibenion gwneud rheoliadau yn unig. Roedd hyn yn cynnwys adran 16 (gweler erthygl 3(1)(a)).
- 3.6 Mae Deddf 2018 hefyd yn diwygio Deddf 2014 i'w gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau cyntaf a wneir o dan adran 83(2B) (sef y Rheoliadau hyn) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (gweler Deddf 2018, Atodlen 1, paragraff 24(4)). Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021 yn diwygio gorchymynion cychwyn blaenorol fel y daw'r diwygiad i Ddeddf 2014 i rym ar 22 Mehefin 2021. O ganlyniad i'r Gorchymyn hwnnw, daw adran 16 o Ddeddf 2018 i rym yn llawn o 1 Medi 2021, sef y dyddiad y daw'r system ADY i rym mewn camau. Hwn hefyd yw'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Diben yr Offeryn Statudol hwn yw rhagnodi yn Rheoliadau 2015 y categorïau o blant sy'n derbyn gofal nad oes rhaid paratoi cynllun addysg personol ar eu cyfer, a gwneud newidiadau eraill i Reoliadau 2015 o ganlyniad i'r gofyniad i fewnosod cynllun addysg personol yn adran 83 o Ddeddf 2014.
- 4.2 Effaith y Rheoliadau hyn fydd parhau â'r sefyllfa fel y mae mewn perthynas â'r canlynol:
 - a. y plant sy'n derbyn gofal y mae'n ofynnol iddynt gael cynllun addysg personol
 - b. y rhestr o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cynllun addysg personol.
- 4.3 Y categorïau o blant sy'n derbyn gofal nad oes rhaid paratoi cynllun addysg personol ar eu cyfer (gweler rheoliad 5 sy'n mewnosod Rhan 1A newydd yn Rheoliadau 2015) yw:
 - unrhyw blentyn sydd wedi cael ei leoli ar gyfer mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, oni bai bod rheoliad 56 yn gymwys i'r plentyn (hynny yw os yw plentyn (i) ar remánd i lety awdurdod lleol, (ii) ar remánd i lety cadw ieuenctid, neu (iii) wedi'i gadw'n gaeth; a gweler rheoliad 2 am ddiffiniad o'r materion hyn)
 - unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol am seibiannau byr (dan yr amgylchiadau a nodir yn rheoliad 62(2));

- unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal dim ond am iddo fod ar remánd i lety cadw ieuenctid.

4.4 Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i blant yn y categorïau hyn gael cynllun addysg personol yn rhinwedd rheoliadau 3, 57 a 62 o Reoliadau 2015.

5. Ymgynghori

5.1 Nid oes ymgynghoriad ffurfiol arall wedi cael ei gynnal am mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol a wneir gan y rheoliadau. Nodwyd bwriad y polisi y tu ôl i'r diwygiadau hyn yn yr ymgynghoriad ffurfiol ar y Cod ADY ac elfennau eraill o weithredu'r system ADY, a gynhaliwyd yn 2018-2019.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi cael ei baratoi mewn perthynas â'r rheoliadau diwygio canlyniadol hyn am mai diwygiadau technegol a wneir ganddynt ac am nad ydynt yn achosi nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau na chyrrff gwirfoddol, nac i'r sector cyhoeddus.